




CANOLFAN MILENIWM CYMRU
WALES MILLENNIUM CENTRE

ADRODDIAD SAFONAU'R IAITH GYMRAEG

2018 / 2019



39

AELOD O STAFF WEDI CAEL CEFNOGAETH
I ALLU ASTUDIO CYMRAEG AM DDIM
YN YSTOD ORIAU GWAITH

14

AELOD O STAFF WEDI CAEL EU CEFNOGI
I WELLA EU SGILIAU CYMRAEG

3498

O ALWADAU FFÔN WEDI'U DERBYN YN GYMRAEG GAN Y CYHOEDD

1719

O GWSMERIAID SYDD WEDI COFRESTRU
CYMRAEG FEL EU DEWIS IAITH

5.2% ▲

Y CYNNYDD MEWN YMGYSYLLTU (FLWYDDYN
AR ÔL BLWYDDYN) AR EIN CYFRIF TWITTER CYMRAEG

50% ▲

Y TWF MEWN YMGYSYLLTU (MIS AR ÔL MIS) GYDA'N SIANELI
CYFRYNGAU CYMDEITHASOL YN YSTOD YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL

NI YW CANOLFAN MILENIWM CYMRU

Un o'n huchafbwyntiau y llynedd oedd bod yn gartref i Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2018. Roedd cynnal yr Eisteddfod, yr ŵyl ddiwylliannol fwyaf yn Ewrop, yn hynod o bwysig i ni. Nid yn unig y cawsom gyfle i roi llwyfan i'r gorau o ddoniau Cymru, gyda channoedd o berfformiadau, cystadlaethau a seremonïau yn digwydd yn ein hadeilad, roedd hefyd yn gyfle i ni arddangos ein gwasanaeth dwyieithog i Eisteddfodwyr o bob cwr o Gymru. Rydym yn angerddol ynghylch cynnig profiad dwyieithog o'r safon uchaf i bob un o'n cwsmeriaid, ein hymwelwyr a'n staff. Mae hyn yn bosib oherwydd y croeso cynnes yr ydym yn ei roi i bawb sy'n ymweld â ni neu sy'n cysylltu â ni, a'r parch a roddwn i'w dewisiadau iaith drwy gofio eu dewis iaith a chynnig cyrsiau Cymraeg am ddim ar wahanol lefelau i'n staff. Canlyniad hyn oll yw sefydliad cynnes, croesawgar sy'n falch o fod yn ddwyieithog.

DR CAROL BELL
Is-Gadeirydd

Rydym yn hynod o falch o'n treftadaeth Gymraeg – bod yn genedl ddwyieithog yw'r hyn sy'n ein gwneud yn unigryw – ac fel y ganolfan celfyddydau perfformio genedlaethol, mae ein hiaith a'n diwylliant wrth galon yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn creu cynrychiadau arloesol sy'n arddangos Cymru i'r byd ac sy'n dod â'r cynrychiadau rhyngwladol gorau un i'n llwyfannau. Rydym yn ceisio codi dyheadau pob person ifanc yng Nghymru a bod yn agored ac yn hygyrch i bawb. Yr hyn sydd wrth wraidd ein gweledigaeth yw'r dymuniad i gynrychioli Cymru yn ei holl amrywiaeth, ysbrydoli'n cenedl a chreu argraff ar y byd ac, mewn gwirionedd, mae ein hymrwymiad i fod yn sefydliad sy'n falch o fod yn ddwyieithog yn tanategu bob un o'r uchelgeisiau yr ydym yn eu rhannu. Mae'r adroddiad yma yn amlygu nid yn unig sut rydym yn bodloni safonau'r Gymraeg ond mae hefyd yn rhannu rhai uchafbwyntiau o'r flwyddyn a fu.

MATHEW MILSOM
Rheolwr Gyfarwyddwr

GOSOD YR OLYGFA

Cyflwynwyd Safonau'r Gymraeg er mwyn darparu fframwaith cyfreithiol sy'n rhoi hawl i unigolion yng Nghymru dderbyn gwasanaethau penodol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ers mis Ionawr 2017, mae Safonau'r Gymraeg wedi bod yn berthnasol i ni.

Rydym bob amser wedi cymryd ein cyfrifoldeb tuag at gyflawni gwasanaethau dwyieithog o ddifri; mae'n dod

yn naturiol i ni. Mae darparu gwasanaethau yn Gymraeg i'n cwsmeriaid wedi bod yn bwysig i'r ffordd rydym yn gweithio ers y dechrau'n deg, ac rydym yn ymrwymedig i gyflawni'r safonau.

Mae ein hymrwymiad i'r Gymraeg yn glir; byddwn yn hyrwyddo cyfleoedd i bobl ddefnyddio eu Cymraeg gyda ni ac yn gwneud yn siŵr nad yw'r iaith yn cael ei thrin yn llai ffafriol.

Wrth ymweld â ni, gall ein cwsmeriaid ddisgwyl cael eu croesawu yn Gymraeg, a phan fyddwn yn ymgysylltu gyda'n cwsmeriaid, byddwn:

- yn cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg
- yn parchu ac yn cofio eu dewisiadau iaith
- yn hyrwyddo ein sioeau a'n digwyddiadau yn ddwyieithog ar ddeunyddiau sydd wedi'u hargraffu ac ar-lein

Y Safonau

Mae ein Rhybudd Cydymffurfio yn mynnu ein bod yn cydymffurfio gyda chfanswm o 146 o safonau, sy'n ymdrin â'r ffordd rydym yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd, ein perthynas gyda'n staff, ynghyd â sut rydym yn ystyried yr iaith yn ein penderfyniadau polisi. Cewch weld rhagor o wybodaeth am y safonau hyn [yma](#).



DAN Y CHWYDDWYDR: EIN PERTHYNAS GYDA CHI

Mae'r safonau cyflenwi gwasanaethau yn egluro pa wasanaethau y mae angen i ni eu darparu'n ddwyieithog i chi – ein cynulleidfaoedd a'n hymwelwyr. Credwn ein bod yn cydymffurfio'n llwyddiannus â'r holl safonau yn y maes hwn ac, wrth wneud hynny, rydym yn darparu croeso Cymreig sy'n naturiol gynnes a phrofiad o'r radd flaenaf i'r rheiny sy'n dewis cysylltu â ni neu ymweld â ni.

Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom:

- Gynnal yr Eisteddfod Genedlaethol, a oedd yn gyfle perffaith i ni arddangos ein gwasanaethau dwyieithog.
- Cefnogi staff drwy ddarparu sesiynau briffio ac atgoffa yn canolbwyntio ar y safonau a gwasanaethau cwsmeriaid drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Lansio ein gwefan newydd, y cyfeiriodd Comisiynydd y Gymraeg ati fel enghraifft o arfer gorau oherwydd y ffordd y mae'n annog siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r tudalennau Cymraeg*
- Cynnal 'gwiriad iechyd' gweledol i sicrhau bod arwyddion parhaol a rhai dros dro a ddangosir yn y Ganolfan yn parhau i gydymffurfio â'r safonau.

Meysydd i'w gwella

Ein nod yw darparu gwasanaeth ardderchog yn barhaus; fodd bynnag, rydym yn deall bod pethau'n medru mynd o'i le weithiau. Yn ystod y flwyddyn, cawsom adborth gan ddau o'n cwsmeriaid. Rhoddodd y ddau gwsmer adborth ar rai o'r cyfieithiadau Cymraeg ar ein gwefan, y gwnaethom eu cywiro, ac ni aethpwyd ymlaen â'r materion hyn fel cwynion ffurfiol.



DAN Y CHWYDDWYDR: EIN PERTHYNAS GYDA'N TÎM

Mae'r safonau gweithredu yn amlinellu pa wasanaethau y dylem fod yn eu darparu'n ddwyieithog i'n staff. Credwn ein bod yn cydymffurfio'n llwyddiannus â'r holl safonau yn y maes hwn, ac wrth wneud hynny rydym yn medru ymateb i anghenion iaith ein staff gan eu cefnogi i barhau i ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid ardderchog i'n cynulleidfaoedd yr un pryd.

Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom:

- Gynnig cyrsiau Cymraeg i'n staff, ac fe wnaeth cyfanswm o 39 o gydweithwyr fynychu'r cyrsiau Cymraeg, gan gynnwys 8 a wnaeth ddilyn cwrs dwys.
- Trefnu sesiynau 'Clonc' anffurfiol – clwb sgwrsio i ddysgwyr Cymraeg ymarfer gyda dysgwyr eraill a siaradwyr Cymraeg rhugl.

Safonau Llundain Polisi

Mae gennym gyfanswm o naw o safonau o fewn y dosbarth hwn a chredwn ein bod yn cydymffurfio'n llwyddiannus â'u holl ofynion. Yn ystod y cyfnod adrodd, ni wnaethom dderbyn unrhyw gwynion a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â'n cydymffurfiaeth â'r maes hwn.

Sgiliau Cymraeg

Rydym yn cofnodi'r nifer o weithwyr sydd â sgiliau Cymraeg ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol ac, ar ddiwedd Mawrth 2019, roedd y sefyllfa fel a ganlyn:

Cyfanswm nifer y staff = 346

Cyfanswm nifer y staff â sgiliau Cymraeg = 153 (44%)

Hyfforddiant

Rydym yn cynnig hyfforddiant i'n staff ar draws ystod o feysydd mewn perthynas â'r cyrsiau penodol sydd wedi'u rhestru o fewn ein safonau. Yn ystod y cyfnod adrodd, fe wnaethom ddarparu hyfforddiant ymsefydlu i 62 o staff. Cynigiwyd opsiwn Cymraeg i bawb; fodd bynnag, ni ddewisodd yr un aelod o staff yr opsiwn hwn gyda'r cwbl yn dewis mynychu'r sesiynau Saesneg. Ni chynigiwyd unrhyw gysiau eraill a oedd yn berthnasol i'r safonau.

Recriwtio

Rydym wedi bod yn gweithio ar ein dulliau o adnabod rolau sydd angen sgiliau Cymraeg i'w cyflawni, gan ein bod am weithio'n strategol ar hyn. Yn unol â'r gofynion, rydym yn cofnodi'r wybodaeth a ganlyn:

MAES ADRODD

NIFER

Swyddi newydd / swyddi gwag a hysbysebwyd yn ystod y cyfnod adrodd	42
Swyddi lle'r oedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol	7
Swyddi lle'r oedd angen dysgu sgiliau Cymraeg ar ôl cael eu penodi i'r swydd	1
Swyddi lle'r oedd sgiliau Cymraeg yn ddymunol	35
Swyddi lle nad oedd sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol	0



YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL

Yn ystod wythnos gyntaf mis Awst 2018, cawsom y pleser o gynnal yr Eisteddfod Genedlaethol, a oedd heb os yn un o'n huchafbwyntiau yn ystod y flwyddyn. Gyda tua 300,000 o bobl yn ymweld â'r wyl wythnos o hyd, roeddem yn falch o allu arddangos ein cyfleusterau arbennig a darparu llwyfan i gystadlaethau a pherfformiadau di-ri.

Roedd ein paratoadau ar gyfer yr Eisteddfod yn cynnwys sesiynau briffio i'r holl staff a'r cwmnïau

preswyl. Roedd y sesiynau briffio yn canolbwyntio ar ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, gwasanaeth cwsmeriaid, a rôl yr Eisteddfod yn niwylliant Cymru. Er mwyn cefnogi'r staff hynny a oedd yn ymdrin â chwsmeriaid ymhellach, fe wnaethom gynnal 'Clonc' bob wythnos – sef sesiynau sgwrsio Cymraeg. Roedd y sesiynau hyn yn canolbwyntio ar ddysgu'r geiriau a'r termau hynny a fyddai'n fwyaf defnyddiol i'n staff blaen tŷ, er mwyn rhoi'r hyder iddynt ryngweithio gyda chwsmeriaid yn Gymraeg.

Am ragor o wybodaeth

Mae rhestr lawn o'r holl safonau sy'n berthnasol i ni ar gael ar ein gwefan ac ar wefan Comisiynydd y Gymraeg www.comisiynyddygyymraeg.cymru.

Hefyd, cewch ragor o wybodaeth ynghylch y safonau a Mesur y Gymraeg ar wefan y Comisiynydd.

Cysylltwch â ni os hoffech ragor o wybodaeth.

029 2063 6464

wmc.org.uk | adborth@wmc.org.uk

Ymunwch â'r sgwrs. Mae croeso i chi gysylltu â ni yn Gymraeg.



DIOLCH

This report is also available in English.